OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2016 Rhif 91 (Cy. 44)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2016

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn cywiro gwall yn nhestun Cymraeg Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012 (O.S. 2012/793 (Cy. 108)).

Ni luniwyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol ar gyfer yr offeryn hwn, gan na fydd yn effeithio ar y costau na'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 91 (Cy. 44)

# CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

## Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2016

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *27 Ionawr 2016* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *1 Chwefror 2016* |
| *Yn dod i rym* | *1 Mawrth 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 10, 74, 82 a 93 o Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

(**1**) 1990 p. 9. Diwygiwyd adran 10 gan adrannau 42 a 118 o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (p. 5) ("Deddf 2004"). Diwygiwyd adran 74(1), (3) a (4) gan adran 63 o Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio 2013 (p. 24). Diwygiwyd adran 74(3) hefyd gan O.S. 2006/1281. Nid yw'r diwygiadau i adran 82 yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn. Diwygiwyd adran 93(1) gan adran 78 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25) a pharagraff 33 o Atodlen 10 iddi, a mewnosodwyd is-adrannau (6A) a (6B) gan adran 118 o Ddeddf 2004 a pharagraffau 19 a 26 o Atodlen 6 iddi.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau o dan yr adrannau hynny, i'r graddau yr oeddynt yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru.

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) (Diwygio) 2016 a deuant i rym ar 1 Mawrth 2016.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

**Diwygio Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012**

**2.**—(1) Mae testun Cymraeg Rheoliadau Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2012(**1**) wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 3(1) (ceisiadau am ganiatâd adeilad rhestredig neu ganiatâd ardal gadwraeth) mewnosoder "gais am" o flaen y geiriau "ganiatâd adeilad rhestredig".

*Carl Sargeant*
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion Cymru
27 Ionawr 2016

(**1**) O.S. 2012/793 (Cy. 108).